

Ffurflen 4

I'w llenwi gan y person a lanwodd Ffurflen 1

HYSBYSIAD O FWRIAD I WNEUD CAIS I'R LLYS YNADON AM ORCHYMYN YN EI GWNEUD YN OFYNNOL I'R AWDURDOD PRIFFYRDD LLEOL SICRHAU BOD RHWYSTR YN CAEL EI GODI

DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 130C(1)

I: [enw'r Awdurdod]
O: [cyfeiriad]

Fe wnes i: [enw]
O: [cyfeiriad]

[cyfeiriad e-bost (dewisol)]
[rhif ffôn (dewisol)]

gyflwyno hysbysiad (Ffurflen 1) i chi ar [dyddiad] i sicrhau bod rhwystr yn cael ei godi. Mae lleoliad y rhwystr wedi'i ddisgrifio yn fy hysbysiad (Ffurflen 1). [Mae copi o Ffurflen 1 wedi'i atodi.] [Mae'r disgrifiadau sydd wedi'u cynnwys yn Ffurflen 1 isod.]

Gan nad yw'r rhwystr wedi'i godi, yr wyf yn bwriadu gwneud cais i Lys yr Ynadon am Orchymyn i'w gwneud yn ofynnol i chi godi'r rhwystr.

Llofnodwyd Dyddiad

NODIADAU AR FFURFLEN 4

Amserlen: Ni chewch gyflwyno hysbysiad o'ch bwriad i wneud cais i Lys yr Ynadon am Orchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod priffyrdd lleol ("yr Awdurdod") sicrhau bod rhwystr yn cael ei godi tan o leiaf ddeufis ar ôl y dyddiad pan wnaethoch chi gyflwyno hysbysiad (Ffurflen 1) i'r Awdurdod.

Cewch wneud cais i Lys yr Ynadon bum niwrnod ar ôl i chi gyflwyno'r hysbysiad hwn i'r Awdurdod, ond rhaid i unrhyw gais gael ei wneud o fewn chwe mis o roi Ffurflen 1 i'r Awdurdod.

Pa Lys Ynadon?

Rhaid i chi wneud cais i Lys yr Ynadon y mae'r rhwystr i'w gael yn eu hawdurdodaeth hwy.